**Cyfarfod o Gyngor Adnewyddu'r Economi**

**Nodiadau o gyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Llun 3 Mehefin 2013 yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

**Gweinidogion yn Bresennol**
Y Prif Weinidog
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg (Eitem 3)

**Rhanddeiliaid yn Bresennol**
Alex Bevan, TUC Cymru
Martin Mansfield, TUC Cymru
Andy Richards, TUC Cymru
Nick Blundell, TUC Cymru
Paul Byard, Cadeirydd Busnes Cymru
Nigel Keane, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Emma Watkins, CBI
Leighton Jenkins, CBI
Nick Payne, RHA
David Russ, Siambrau Cymru
Stuart Taylor, Siambrau Cymru
Ben Cottam, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach
David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Peter Hughes, Cymdeithas Adeiladu y Principality/Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Robert Lloyd-Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Yr Athro Dylan Jones Evans (Eitem 5 yn unig)
Peter Davies, Cadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a Chomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy (Eitem 6 yn unig)

**Sylwedyddion**
Ifan Glyn, Ffederasiwn Busnesau Bach
Heather Eason, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Mark Judd, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Jeanette Reis, Cynnal Cymru (Eitem 6 yn unig)
Rita Singh, Cynnal Cymru (Eitem 6 yn unig)
Jeffrey Brown, PWC (Eitem 6 yn unig)

**Ymgynghorwyr Arbennig a Swyddogion Llywodraeth Cymru yn Bresennol**
Ysgrifennydd Parhaol
James Price
Tracey Burke
Jonathan Price
Galina Artisien (Eitem 5)
Marcella Maxwell
Owen Evans (Eitem 3)
Mick McGuire
Andrew Bold
Alistair Davey
Catherine Jenkins (Eitem 3)
Huw Owen

**Ymddiheuriadau:** Richard Houdmont, Sefydliad Marchnata Siartredig; Alex Jackman, Fforwm Busnesau Preifat; David Lermon, ICAEW; Graham Morgan, Siambrau Cymru; Phil Orford, Fforwm Busnesau Preifat; Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr; Richard Jenkins, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr; Richard Price, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi.

**1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol**

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Prif Weinidog, a chyflwynwyd eitemau'r agenda ganddo.

1.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod pum prif eitem ar yr agenda:

- Sgiliau
- Papur gan TUC Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Sefydliad Economeg Newydd: Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol i Gymru
- Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru gan y Sector Preifat
- Trywydd yr Economi Werdd
- Croesfannau Hafren

1.3 Eglurodd y Prif Weinidog fod chwe phapur ychwanegol i'w nodi oedd yn ymatebion yn bennaf i gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd pump o'r papurau wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod ac roedd un i'w osod ger bron y bore hwnnw, ac oherwydd ei gyfrinachedd, rhoddwyd embargo ar yr wybodaeth a gynhwysid ynddo nes iddo gael ei ryddhau.

1.4 Fe wnaeth y Prif Weinidog gyflwyno'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

1.5 Hysbyswyd y Cyngor gan y Prif Weinidog am ddatblygiadau diweddaraf Maes Awyr Caerdydd, yn enwedig y cyhoeddiad diweddar fod Llywodraeth Cymru wedi prynu'r maes awyr. Eglurodd fod cwmni wedi'i sefydlu i redeg y maes awyr ac roedd dewisiadau i'r dyfodol wrthi'n cael eu hystyried.

2. **Nodiadau a Chamau Gweithredu o gyfarfod a gynhaliwyd 28 Ionawr 2013**

2.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon o'r agenda a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw faterion ynghylch cywirdeb y nodiadau. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau yn ymwneud â chywirdeb, a chytunwyd ar nodiadau'r cyfarfod blaenorol.

2.2 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw sylwadau ynghylch y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a chytunwyd ar y pwyntiau gweithredu.

3 **Sgiliau**

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon ac atgoffodd y Cyngor fod nifer o faterion wedi'u codi yn y cyfarfod diwethaf ynghylch sgiliau, yn enwedig mewn perthynas â dyfodol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sail

datblygiad sgiliau yn y Deyrnas Unedig gyfan. Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i gyflwyno'r papur.

3.2 Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg hysbysu'r Cyngor ei fod yn croesawu'r cyfle i ymuno â'r cyfarfod i gynnig diweddariad ynghylch cyfeiriad cyflogaeth a sgiliau i'r dyfodol yng Nghymru. Cyfeiriodd at y partneriaethau gwerthfawr oedd yn cael eu datblygu gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid a sut gallai Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru nodweddu hyn yn bositif.

3.3 Dywedodd mai pedair blaenoriaeth buddsoddi a chefnogaeth oedd galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn trwy ddatblygu sgiliau, rhinweddau a chymwysterau; annog buddsoddiad mewn sgiliau i hybu cynhyrchiant a thwf; cefnogi llwybrau at swyddi cynaliadwy i bobl sydd dan anfantais ac sy'n ddi-waith a sicrhau fod y seilwaith dysgu yn meddu ar y gallu i gynnig sgiliau a hyfforddiant i genedl fodern ddwyieithog.

3.4 Dywedodd fod cael system cymwysterau gadarn a thrylwyr yng Nghymru yn bwysig. Cyfeiriodd at yr Adolygiad o Gymwysterau i bobl ifanc 14-19 oed a lansiwyd ym mis Medi 2011 ac a ddaeth i ben tua diwedd y llynedd. Pwysleisiodd mai un o agweddau allweddol yr Adolygiad oedd asesu pa un ai a oedd y system yn addas i'w diben i economi Cymru. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori helaeth, yn cynnwys ymgynghori â chyflogwyr, ac roedd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o sawl ffynhonnell ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Nododd fod holl argymhellion yr Adolygiad wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.

3.5 Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a dywedodd fod Cymru, yn ogystal â'r gwledydd datganoledig eraill, yn dal yn ymroddedig i'r Safonau fel y prif ddull o ddatblygu amrywiaeth gyson, hyblyg a symudol o sgiliau a chymwysterau galwedigaethol. Cyfeiriodd at Adolygiad Richard yn Lloegr a allai arwain at ddisodli'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gyda safonau sydd â mwy o bwyslais ar gyflogwyr a'r pryder y gallai hyn arwain at gyflogwyr mwy yn dominyddu. Hysbysodd y Cyngor y byddai'n cwrdd â Gweinidog Sgiliau'r DU a'i gymheiriaid yn y gwledydd datganoledig yn ddiweddarach yn ystod y mis hwn i drafod y materion hyn yn fanylach, â'r nod o gytuno ar radd o unffurfedd ar draws y Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd at bwysigrwydd cynrychioli Cymru yng Nghomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU a sut mae Comisiwn y DU yn helpu i lywio gwybodaeth am y farchnad lafur a'n dull o glustnodi adnoddau er mwyn datblygu sgiliau.

3.6 Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr amrywiaeth o raglenni cyflogaeth a sgiliau sydd yn eu lle ar hyn o bryd ac a gynlluniwyd i gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau fel dull o ymuno â'r gweithlu. Cyfeiriwyd at Raglen Datblygu'r Gweithlu fel rhaglen bwrpasol boblogaidd iawn sy'n cynnig cymorth i gwmnïau i nodi ac ymateb i'w anghenion o ran sgiliau. Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn helpu unigolion i gyflawni'r lefel o sgiliau gweithredol sy'n angenrheidiol yn y gweithle presennol, gan gefnogi cyflogwyr i nodi ac ymateb i anghenion o ran llythrennedd, rhifedd a TGCh o fewn y gweithlu. Fe wnaeth Twf Swyddi Cymru addo creu 4000 o swyddi yn flynyddol ac fe gyflawnodd 6000 o

gyfleoedd swyddi yn ei flwyddyn gyntaf. Fe wnaeth y rhaglenni prentisiaeth i bobl ifanc barhau i ymdrin ag ystod eang o sgiliau, gan roi sylw penodol i sectorau blaenoriaethol a fydd o les i gyflogwyr allweddol ar draws Cymru. Cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol i gefnogi'r Rhaglen dros y 2 flynedd nesaf; bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth i brentisiaethau lefel uwch.

3.7 Hysbyswyd y Cyngor gan y Dirprwy Weinidog fod trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch y rownd nesaf o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a chyflawni camau gweithredu yn ymwneud â chyflogaeth a sgiliau i'w cefnogi o 2014 ymlaen. Y nod oedd adeiladu ar lwyddiannau rhaglenni presennol a chreu system symlach a mwy llyfn ar gyfer unigolion a chyflogwyr a chroesawir adborth ynghylch hyn. Wrth symud y gwaith yn ei flaen, nododd ei fod yn allweddol inni weithio mewn partneriaeth, nid yn unig â chyflogwyr, ond â rhanddeiliaid AU ac AB hefyd.

3.8 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Dirprwy Weinidog, a gwahoddodd y Cyngor i gynnig sylwadau.

3.9 Roedd Martin Mansfield yn croesawu'r papur a'r ymagwedd a gymerid gan Lywodraeth Cymru at ddatblygu sgiliau a gweithio trwy Fwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Cymru. Yn benodol, roedd yn croesawu'r pwyslais ar symleiddio'r hyn a gynigir i'r cyflogwyr a'r gweithlu. Holodd a oes gormod o raglenni ar hyn o bryd i'r cyflogwr/gweithlu fod yn ymwybodol ohonynt.

3.10 Gwahoddwyd y Dirprwy Weinidog gan y Gweinidog Economi, Gwybodaeth a Sgiliau i siarad am y meysydd gwaith sy'n mynd rhagddynt ar draws Adrannau i gyfeirio datblygiad sgiliau yn unol ag anghenion cyflogwyr ac i egluro sut caiff y rhain eu datblygu yng ngoleuni technolegau newydd ac economi sy'n datblygu.

3.11 Cyfeiriodd Emma Watkins at y Cynllun Prentisiaethau a holodd a fu unrhyw ystyriaeth i rannu prentisiaethau ar draws cadwyni cyflenwi, gan ddefnyddio cwmnïau angori a busnesau sy'n ychwanegu gwerth sylweddol.

3.12 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i'r tri phwynt a wnaed. Gwnaeth sylw ynghylch yr angen i symleiddio'r hyn a gynigir i'w wneud yn llai cymhleth i sefydliadau llai, a chyfeiriodd at y profiad y gellir manteisio ohono o rowndiau blaenorol y cronfeydd strwythurol, a sut ddylem fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r rhain. Mewn perthynas â gweithio ar draws adrannau, cyfeiriodd at Uned Gwybodaeth y Farchnad Lafur a'i chyfraniad at ddatblygu a chryfhau ein dealltwriaeth o ba sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr. Nododd y drafodaeth â phanelau sectorau, a chyfeiriodd atynt fel ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth ynghylch anghenion a materion sgiliau. Gwnaeth sylw ynghylch defnyddio cwmnïau angori oedd yn gefnogol iawn i'r cynllun prentisiaethau a gynigir, a chyfeiriodd at y cynllun rhannu prentisiaid oedd yn caniatáu i gwmnïau bychan elwa hefyd.

3.13 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

4. **Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol i Gymru**

4.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weinidog. Hysbysodd y Cyngor fod yr Adroddiad wedi'i lansio yng nghynhadledd TUC Cymru ychydig dros wythnos ynghynt a nododd y byddai angen rhagor o amser ar aelodau i ystyried yr Adroddiad yn fanwl er mwyn ffurfio eu safbwyntiau, ond roedd hwn yn gyfle i drafod. Gwahoddodd TUC Cymru i gyflwyno'r adroddiad ac agor y drafodaeth.

4.2 Dywedodd Martin Mansfield hefyd fod TUC Cymru yn cydnabod nad oedd y Cyngor wedi cael digon o amser i gynnig sylwadau ar yr adroddiad, oherwydd roedd wedi'i gyhoeddi yn ei gynhadledd ar 22 Mai. Dywedodd y byddai Alex Bevan ac Andy Richards yn rhoi crynodeb o'r adroddiad i'r Cyngor a throsolwg o Ddatganiad Cyffredinol y Cyngor i'r Gynhadledd.

4.3 Cafwyd amlinelliad o'r adroddiad gan Alex Bevan. Dywedodd fod TUC Cymru yn credu ei fod yn asesiad o ansawdd uchel a drafodai wendidau tymor hir Cymru ac a nodai gamau gweithredu posibl i fynd i'r afael â'r rhain, gan amlygu'r hyn y gallai strategaeth ddiwydiannol ymdebygu iddo. Cyfeiriodd at argyfwng ariannol 2008 a sut oedd dyledion wedi cronni ers y cyfnod hwnnw. Cyfeiriodd at gynhyrchiant a sut oedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch anweithgarwch economaidd a sut oedd twf economaidd parhaus yn dibynnu ar wella cynhyrchiant. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i ddirwasgiad 2008 a gwerth cynlluniau megis ProAct a ReAct.

4.4 Dywedodd Andy Richards fod y Cyngor Cyffredinol yn credu ei bod bellach yn bryd datblygu polisi economaidd wedi'i ddiweddaru. Cyfeiriodd at effeithiau niweidiol camau cynilo Llywodraeth y Deyrnas Cymru a sut oedd hynny wedi effeithio ar safonau byw yng Nghymru. Roedd TUC Cymru yn dal yn ymroddedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i ffocws ar swyddi a thwf, ac mae'n awyddus i weithio ar draws partneriaid cymdeithasol i fanteisio ar gryfderau economaidd a chefnogi swyddi. Roedd y strategaeth ddiwydiannol yn gam ymlaen tuag at gyflawni hyn. Roedd Datganiad y Cyngor Cyffredinol yn amlinellu sail i ddatblygu polisi diwydiannol penodol â chanlyniadau heriol ond cyraeddadwy, gan gyfeirio adnoddau at y pwyslais ar gynyddu cyflogaeth trwy waith y cwmnïau angori, rheolwyr cadwyni cyflenwi a sicrhau fod yr holl fuddsoddiadau pwysig yn cyflawni gwerth gorau o ran swyddi uniongyrchol a chadwyni cyflenwi. Roedd cyfle hefyd i sicrhau fod contractau Llywodraeth Cymru yn cael eu dyfarnu i gontractwyr moesol. Credai'r Cyngor Cyffredinol fod angen gweithredu mewn ymateb i'r argyfwng economaidd, ac y dylai Cyngor Adfer yr Economi gyfrannu at y gwaith o arsylwi'r datblygiadau hyn.

4.5 Dywedodd y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg fod yr adroddiad yn cynnig cefndir defnyddiol. Nododd, fodd bynnag, nad oedd unrhyw gyfeiriad at Faes Awyr Caerdydd fel rhan bwysig o gynllunio seilwaith cenedlaethol a wnaiff gyfraniad pwysig at strategaeth datblygu economaidd ehangach. Gellid rhoi rhagor o bwyslais ar fand eang a rôl buddsoddi uniongyrchol tramor fel cyfrannwr at dwf. Dywedodd y Gweinidog fod buddsoddi uniongyrchol tramor yn cyfrif am nifer sylweddol o swyddi yn economi Cymru eleni, a chynigodd enghreifftiau o bwysigrwydd buddsoddi uniongyrchol tramor i'r rhanbarth. Cyfeiriodd y Gweinidog at faterion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi leol, a hysbysodd y Cyngor fod digwyddiad wedi'i gynnal yr wythnos flaenorol i edrych ar gyfleoedd. Cyfeiriodd at

ganolbwyntio ar sectorau a chyllid ar gyfer buddsoddi, yn cynnwys gwaith yr Athro Dylan Jones Evans a fyddai'n siarad yn ddiweddarach, fel enghreifftiau o weithgarwch datblygu economaidd presennol. Gofynnwyd i'r Athro Jones Evans archwilio pa mor effeithiol y gall busnesau Cymru ddefnyddio ffynonellau presennol cyllid y sector preifat i gynorthwyo i ddatblygu strategaeth fuddsoddi fodern.

4.6 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Dirprwy Weinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a gwahoddodd y Cyngor i gynnig sylwadau.

4.6 Roedd Derek Walker yn croesawu'r cyfeiriad yn yr adroddiad at berchnogaeth gan weithwyr a datblygu mentrau cydweithredol. Nododd fod yr adroddiad yn cydnabod llwyddiant y sector cydweithredol oedd wedi bod yn llwyddiannus iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dywedodd y saif gwerth mentrau cydweithredol nid yn unig yn eu gallu i ennyn diddordeb gweithwyr a gwella cynhyrchiant, ond hefyd yn y cyfoeth a gedwir. Cyfeiriodd at drafodaethau â WEFO parthed y diffyg pwyslais ar fentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol, a ystyrir ar hyn o bryd yn ymyriadau ategol, nid rhai strategol.

4.7 Yn ôl Emma Watkins, er na allai'r CBI gytuno â'r dadansoddiad yn ei gyfanrwydd, roedd llawer y gellid ei gefnogi yn yr adroddiad. Cytunai â sylw'r Gweinidog am fuddsoddi uniongyrchol tramor a chroesawai'r cyfeiriad at gwmnïau angori, cadwyni cyflenwi a seilwaith. Nododd ei bod yn bwysig cofio fod llawer o weithgarwch eisoes yn digwydd ac mae ymgysylltu cryf â'r sector breifat a chamau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, a hoffai'r CBI weld fframwaith trosfwaol sy'n dod â'r holl feysydd ynghyd ac sy'n cynnig eglurder o ran ffocws strategol. Cwestiynodd a oedd yr adroddiad yn argymell datblygu strategaeth ddiwydiannol ynteu strategaeth ddatblygu economaidd, oherwydd gan amlaf, defnyddir y term diwydiannol yn benodol mewn perthynas â gweithgarwch diwydiannol / gweithgynhyrchu, a ni chaiff ei ddefnyddio bob amser i gwmpasu bob sector. Cadarnhaodd fod yn well gan y CBI y diffiniad ehangach hwn, a byddai'r CBI yn barod i symud y gwaith hwn yn y ei flaen gyda Llywodraeth Cymru.

4.8 Dywedodd Iestyn Davies fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn cytuno fod angen sbarduno'r economi. Cyfeiriodd at y polisi economaidd presennol a'i sefyllfa mewn perthynas â pholisi diwydiannol. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd yn croesawu rôl sefydliadau dielw, ac roedd o blaid rhagor o bwerau benthyca. Nododd y byddai'n werthfawr dod â'r holl weithgarwch ynghyd mewn un prif gynllun i wneud Cymru yn le mwy ffyniannus.

4.9 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yna arweinyddiaeth wleidyddol gref yn y cyd-destun hwn, ac ailddatganodd mai ei flaenoriaeth oedd sicrhau fod y gwasanaeth sifil yn cyfrannu'n sylweddol at yr agenda hwn.

4.10 Cyfeiriodd y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg at ei Bwrdd Cynghori Gweinidogol sy'n edrych ar feysydd amrywiol y polisi o fewn Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Cyfeiriodd y Gweinidog at ffocws newydd i'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r gwaith a wnaed ar y Cynllun Adnewyddu Economaidd a sefydlu sectorau o fewn Economi, Gwyddoniaeth

a Thrafnidiaeth. Roedd y dirwasgiad wedi golygu fod nifer o fesurau dros dro yn angenrheidiol yn ogystal ag Adnewyddu Economaidd, ac o ganlyniad, roedd amlinellu cyfeiriad tymor hir yn rhywbeth yr oedd yn edrych ymlaen at ei wneud yn yr Hydref. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffocws cryf ar sgiliau a thechnoleg ym mhortffolio'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

4.11 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at gyfyngiadau defnyddio Gwerth Ychwanegol Crynswth fel dull o fesur, ac o ganlyniad i hynny, nododd nad oedd bob amser y cyfleu darlun gwir a chywir o'r economi. Cyfeiriodd at sut gall Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario fod yn ddull mwy addas o fesur. Cynigodd sylwadau am dermau gwahanol diwydiant ac economi, a bod y termau hyn yn aml yn aneglur, a chaiff y term 'diwydiant' ei ddefnyddio'n aml iawn i gyfeirio at y diffiniad ehangach.

4.12 Nododd Andy Richards y sylwadau a wnaed mewn perthynas â buddsoddi uniongyrchol tramor. Dywedodd fod yr adroddiad yn cwestiynu buddsoddiadau penodol mewn perthynas â buddsoddi uniongyrchol tramor anghynaliadwy. Roedd yn cydnabod y gefnogaeth a roddwyd i'r buddsoddwyr pwysicaf yng Nghymru, y cyfeirir ato yn yr adroddiad fel buddsoddiad da. Diolchodd i'r Cyngor am ei sylwadau defnyddiol a chywir. Dywedodd y byddai TUC Cymru yn cymryd cyfle i fyfyrio ar yr arsylwadau a'r sylwadau a wnaed.

4.13 Ychwanegodd Martin Mansfield nad oedd TUC Cymru yn disgwyl ymateb sylweddol ar yr adeg hon a nododd nad yw'r adroddiad yn bresgripsiwn i'r economi, ond ei fod yn amlygu'r materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Hysbysodd y Cyngor fod TUC Cymru yn croesawu'r cyfle i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r cynigion ymhellach wrth symud ymlaen.

4.14 Diolchodd y Prif Weinidog i TUC Cymru a chytunodd i edrych eto ar yr eitem hon ym mis Hydref.

**CAM GWEITHREDU: Cytunwyd y dylid edrych eto ar yr eitem hon yng nghyfarfod mis Hydref, ac yn y cyfamser, bydd y Gweithgor yn ystyried pa gamau y dylid eu datblygu**

## 5. Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru gan y Sector Preifat

5.1. Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weinidog. Hysbysodd y Cyngor fod hwn yn fater a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, a chytunwyd i gynnig diweddariad ar yr adolygiad yn y cyfarfod hwn. Gwahoddodd y Prif Weinidog y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg i ddweud ychydig o eiriau cyn cyflwyno'r Athro Dylan Jones Evans.

5.2 Hysbyswyd y Cyngor gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg ei bod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r Cyllid sydd ar gael i BBaChau ym mis Ionawr. Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch y cyllid sydd ar gael i BBaChau, felly roedd cael gwybodaeth fanylach wedi bod yn bwysig.

Hysbysodd y Cyngor fod yr adolygiad mewn dwy ran, sef deall effeithiolrwydd banciau'r stryd fawr wrth ddarparu'r cyllid sydd ei angen ac awgrymu ffynonellau cyllid eraill.

5.3 Cafodd y Cyngor ddiweddariad gan yr Athro Dylan Jones Evans ynghylch y sefyllfa bresennol a materion sy'n dod i'r amlwg ar sail y dystiolaeth a gasglodd. Cyfeiriodd at gytundeb Basel III ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru drafod y mater o'i effaith anffafriol ar BBaChau yn uniongyrchol â Thrysorlys EM a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Cyfeiriodd at bryderon ynghylch y Banc Busnes a'r posibilrwydd o ddyrannu cyllid yn anghyfartal ar draws y Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd hefyd at fenthyciadau a gorddrafftiau a hysbysodd y Cyngor fod y dystiolaeth yn awgrymu fod cwmnïau llai, ieuengach, yn llai tebygol o lwyddo wrth ofyn i'w banc am fenthyciadau. Nododd fod y dystiolaeth yn awgrymu nad oedd cwmnïau llai yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac roedd cwmnïau o faint canolig yn wynebu llai o anawsterau yng Nghymru. Fe gododd hyn y cwestiwn ynghylch a oedd angen system ar wahân yng Nghymru i gwmnïau llai. Amlygodd yr Athro Dylan Jones Evans faterion yn ymwneud â diogelwch a fforddiadwyedd, a chwestiynodd werth cynlluniau presennol y DU o ran mynd i'r afael â'r materion hyn. Gofynnodd a allai Llywodraeth Cymru edrych ar ddarparu gwarantau ychwanegol i sicrhau benthyciadau a roddir i fusnesau Cymru. Cyfeiriodd hefyd at y posibilrwydd i Lywodraeth Cymru annog banciau i wneud penderfyniadau ynghylch credyd yn lleol yng Nghymru a sicrhau gwell tryloywder yn y broses fenthyca. Cyfeiriodd at y diffyg cysylltiad rhwng y rhaglenni cymorth i fusnes a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r cyllid a ddarperir gan y gymuned fancio yng Nghymru. Pwysleisiodd bwysigrwydd rhoi'r cymorth cywir i gwmnïau i sicrhau eu bod yn barod am fuddsoddiadau, a'u cyfeirio at ffynonellau cyllid, yn cynnwys ffynonellau eraill o gyllid. Cyfeiriodd at adroddiad NESTA, oedd yn amlinellu potensial sylweddol ffynonellau cyllid amgen, a'r cyfle i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth gefnogi ffynonellau eraill o gyllid megis benthyca rhwng cyfoedion a chyllido torfol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at Gyllid Cymru a'r angen i bennu ei gyfeiriad strategol i'r dyfodol.

5.4 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Athro Dylan Jones Evans a gwahoddodd y Cyngor i gynnig sylwadau.

5.5 Holodd David Russ a oedd unrhyw enghreifftiau o wersi a ddysgwyd y gellid eu defnyddio. Rhoddodd enghraifft o Gynllun Benthyciad Dechrau Busnes yn gweithredu yn Lloegr, a ddenai tua 120 o geisiadau bob wythnos, a holodd am y sefyllfa yng Nghymru. Ymatebodd yr Athro Jones Evans trwy ddweud na ddylai unrhyw gynlluniau i sefydlu Cynllun Benthyciad Dechrau Busnes yng Nghymru gael eu cyfyngu i bobl ifanc 18-30 oed, oherwydd roedd hynny'n rhy gyfyngol. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd iawn i fusnesau newydd gael benthyciadau, a dylai'r gweithgareddau weithio ochr yn ochr â'r banciau, yn hytrach na chael eu hystyried yn ddewis yn eu lle. Ychwanegodd fod llywodraeth y DU yn ystyried ehangu'r cynllun i bobl o bob oed.

5.6 Cyfeiriodd Peter Hughes at y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a benthycwyr yn y diwydiant morgeisi, lle cynhelid cyfarfodydd chwarterol i ddeall agendâu ei gilydd. Nododd hefyd y buasai sefydlu'r un math o

berthynas â'r gymuned fusnes yn fuddiol. Cytunai â'r pwynt ynghylch gwarantau a dywedodd y teimlai fod angen bod yn realistig o ran y potensial ar gyfer cymdeithasau adeiladau. Cytunodd fod benthyca rhwng cyfoedion a chyllido torfol yn cynnig potensial, ond rhybuddiodd fod angen gofal yn y cyd-destun hwn. Cyfeiriodd at Gronfa flaenorol Buddsoddi Cymru mewn Adfywiad fel patrwm.

5.7 Roedd Robert Lloyd Griffiths yn croesawu'r adroddiad a chynigodd sylwadau am ei bwysigrwydd. Cyfeiriodd at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau a dywedodd fod dulliau o gael cyllid wedi'i nodi fel mater allweddol. Cyfeiriodd at y berthynas rhwng BBaChau a banciau a'r angen am newid diwylliannol i sicrhau fod gan fusnesau bach yr hyder i geisio cyllid o sawl ffynhonnell. Amlygodd yr Athro Jones Evans yr angen i addysgu busnesau yn well (yn enwedig microfusnesau) ac awgrymodd y syniad o sefydlu gwefan cyllid busnes. Awgrymodd Robert Lloyd Griffiths y gallai Busnes Cymru gynnwys dolen at y cymorth perthnasol sydd ar gael i fusnesau.

5.8 Cyfeiriodd Ben Cottam at baragraff 5 y papur a gofynnodd a oedd yr wybodaeth ychwanegol roedd yr Athro Dylan Jones wedi gofyn amdani gan y banciau ar gael. Hysbysodd yr Athro Jones Evans y Cyngor fod y Bwrdd Cynghori ar y Cyllid sydd ar gael i BBaChau wedi cwrdd â chynrychiolwyr y banciau ac wedi gofyn iddynt sut gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i gefnogi mynediad at gyllid mewn partneriaeth â'u sefydliadau hwy.

5.9 Hysbyswyd y Cyngor gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod nifer o feysydd yn cyfrannu at yr adolygiad hwn, yn cynnwys gwaith yr Athro Colyn Gardner, y gofynnwyd iddo ddarparu gwybodaeth ynghylch cyllido cymunedol.

5.10 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Athro Dylan Jones Evans.

**Cam Gweithredu: Bydd yr Athro Dylan Jones Evans yn ystyried y sylwadau a gafwyd wrth orffen yr adroddiad cam cyntaf.**

## 6. Trywydd yr Economi Werdd

6.1 Fe wnaeth y Prif Weinidog groesawu Peter Davies i'r Cyngor yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a Chomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, a gwahoddodd y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'w gyflwyno mewn ychydig eiriau.

6.2 Roedd y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn croesawu gwaith ac ymagwedd Peter Davies, a'i wahodd i gyflwyno'r papur.

6.3 Hysbyswyd y Cyngor gan Peter Davies fod y papur wedi'i baratoi â chymorth gan Price Waterhouse Coopers, a'i fod yn cynnig amlinelliad o'r dull economi gyfan o ymdrin â thwf gwyrdd. Eglurodd fod llawer iawn o weithgarwch yng

Nghymru yr oedd elfennau ohono yn cyfrannu at dwf gwyrdd, ac awgrymid y gellid cysylltu hyn yn well. Cynigodd fod y dull a amlinellid yn ganolog i adfywio economaidd a Brand Cymru, a chyfeiriodd at enghreifftiau mewn gwledydd eraill fel Seland Newydd ac Iwerddon lle'r oedd twf gwyrdd eisoes yn cael ei ddatblygu fel rhan o'u brand a'u naratif. Byddai'r dull yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu. Gwahoddodd y Cyngor i gefnogi rôl twf gwyrdd a dywedodd y byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda'r Cyngor i symud rhaglen weithredu gytûn yn ei blaen.

6.4 Diolchodd y Prif Weinidog i Peter Davies, a gwahoddodd y Cyngor i gynnig sylwadau.

6.5 Cafwyd sylwadau gan Andy Richards ynghylch pwysigrwydd yr economi werdd a nododd fod sawl enghraifft o arfer da yng Nghymru. Nododd sut oedd hynny'n rhan o'r Strategaeth Ddiwydiannol ac y byddai'n fater allweddol yn y dyfodol a gaiff gefnogaeth TUC Cymru.

6.6 Cyfeiriodd Paul Byard at y datganiad ar dudalen 8 yr adroddiad oedd y datgan yr amcanir i brisiau ynni gynyddu 70% erbyn 2018, ac felly roedd yr EEF yn cefnogi'r agenda. Byddai'r EEF yn croesawu amserlen gweithredu er mwyn cynnal sefyllfa gystadleuol busnesau Cymru.

6.7 Dywedodd Emma Watkins fod y CBI yn cymeradwyo gwaith Peter Davies ac ychwanegodd fod cwmnïau yn weithgar yn y maes hwn. Nododd, yn sgil costau cynyddol ynni, fod angen cefnogi diwydiannau ynni-ddwys, ochr yn ochr â chefnogaeth i fusnesau doethach, gwyrddach. Byddai'r CBI yn parhau i gefnogi gwaith yn y maes hwn.

6.8 Awgrymodd Iestyn Davies mai un her bosibl mewn perthynas â'r agenda hwn fyddai sicrhau fod busnesau yn cydnabod fod hwn yn fater perthnasol iddynt. Awgrymodd fod y cysyniad 'Gwyrdd' yn aml yn cael ei ddehongli mewn ffordd benodol, a dylid ei gysylltu ag agendâu cymdeithasol, economaidd a chynaliadwyedd diwylliannol ehangach, yn ogystal â'r agenda amgylcheddol. Gofynnodd a allai'r adroddiad ystyried sut oedd yr egwyddorion a'r materion wedi'u plethu â pholisïau presennol a chamau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru ac ystyried y mater o hirhoedledd.

6.9 Roedd Ben Cottam yn croesawu'r papur ac yn cefnogi'r egwyddor o symud twf gwyrdd yn ei flaen. Nododd fod y papur yn dod â sawl trafodaeth ar y mater hwn ynghyd. Dywedodd ei fod wedi mynychu cynhadledd sefydlu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd (GIB) yn ddiweddar, ac awgrymodd y dylem edrych ar y cyfraniad y gallai'r GIB ei wneud yng Nghymru ac elwa ar y cyllid sydd ar gael. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu portffolio buddsoddi gwyrdd a holodd a fyddai unrhyw werth mewn edrych ar strwythur tebyg.

6.10 Hysbyswyd y Cyngor gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg y byddai'n cwrdd â'r Athro Garel Rhys i drafod y mater hwn ac yn edrych ar y posibilrwydd o ymchwiliad ar draws Adrannau.

6.11 Diolchodd Peter Davies i'r Cyngor am ei gyfraniad positif. Cadarnhaodd ei fod yn cydnabod y materion a wynebir gan y sawl sy'n defnyddio llawer iawn

o ynni yng Nghymru a'r angen i gefnogi'r busnesau hynny, gan gyfeirio at bwysigrwydd buddsoddi mewn arloesedd ynni, gwneud y defnydd gorau o gronfeydd strwythurol yr UE a chysylltu ag AU.

6.12 Ailddatganodd yr angen i gyfathrebu gweithgarwch presennol yn dda a sut oedd twf gwyrdd yn frand a gydnabyddir yn fyd-eang.

6.13 Hysbysodd y Cyngor sut y defnyddiwyd dull seiliedig ar dystiolaeth i gasglu'r wybodaeth, ond dywedodd y dylai'r ffocws fod ar gyflawni, i wneud Cymru'n lle deniadol i fuddsoddi ynddo i'r busnesau hyn sydd wedi ymroddi i dwf gwyrdd.

6.14 Diolchodd y Prif Weinidog i Peter Davies am ei waith hyd yn hyn.

**Cam Gweithredu: Bydd Peter Davies yn ystyried y sylwadau a bydd y Gweithgor yn pennu'r camau nesaf.**

**7. Croesfannau Hafren**

7.1 Hysbyswyd y Cyngor gan y Prif Weinidog fod yr eitem hon wedi'i thrafod yn y cyfarfod diwethaf a chytunwyd i gyflwyno papur yn y cyfarfod hwn. Gwahoddodd y Prif Weinidog y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gyflwyno'r Papur.

7.2 Roedd y Gweinidog yn croesawu'r cyfle i drafod y mater pwysig hwn â'r Cyngor. Roedd y Gweinidog yn cydnabod fod amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch dyfodol Croesfannau Hafren ac effaith economaidd y tollau. Cyfeiriodd at sut ddylid gwneud y penderfyniad ynghylch dyfodol y tollau yng Nghymru oherwydd teimlir effaith negyddol y tollau yma, ac roedd Llywodraeth Cymru mewn gwell safle i wneud penderfyniadau sy'n rhoi blaenoriaeth i fuddiannau economaidd Cymru. Byddai hefyd yn cynnig cyfle i gynllunio trefn codi tollau sy'n hyblyg ac yn ymatebol i anghenion busnes. Cyfeiriodd at natur y ddyled yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i nodi a dewisiadau eraill yn lle parhau i godi tollau, fel y gwelwyd yn y dull a ddefnyddiwyd yn achos Pont Humber.

7.3 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y ddyled wreiddiol a dywedodd fod dyled hanesyddol yn bodoli hefyd, na chynhwyswyd yn flaenorol, y byddai'n rhaid ei dalu ar ddiwedd y Consesiwn presennol. Cyfeiriodd at bwysigrwydd datganoli pwerau i Gymru i alluogi penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru i gael eu gwneud yng Nghymru. Cyfeiriodd at y dewis o godi tollau ar un o ffyrdd lliniaru'r M4, a dywedodd fod hyn yn ddewis deniadol. Pe bydd Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfrifol am Groesfan Hafren, ni fydd yn gallu dileu'r tollau, ond byddai'n ceisio eu lleihau. Nodwyd tolli clyfar fel dewis oedd o ddiddordeb.

7.4 Dywedodd Nick Blundell fod TUC Cymru yn cefnogi cynigion i ddatganoli rheolaeth Croesfan Hafren i Lywodraeth Cymru.

7.5 Gofynnodd Iestyn Davies am eglurhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru’n ceisio cael rheolaeth o’r groesfan fel dull o greu ffrwd incwm neu er mwyn bod â’r gallu i reoli datblygiad economaidd y tollau a’u heffaith ar seilwaith.

7.6 Cadarnhaodd y Prif Weinidog mai’r flaenoriaeth bennaf oedd sicrhau tollau llai, gan ystyried costau cynnal a chadw'r pontydd. Dywedodd nad oedd ffordd liniaru'r M4 yn ddibynnol ar dollau, oherwydd gellid ei chyllido trwy ddulliau eraill, yn amodol ar gael pwerau benthyca.

7.7 Hysbyswyd y Cyngor gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg y byddai cynllun drafft yn amlinellu cynigion i’r M4 o amgylch Casnewydd yn cael ei gyhoeddi’n fuan, a fuasai’n cyd-fynd â chwblhau asesiad o gyflawni ymroddiadau yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

7.8 Gofynnodd y Prif Weinidog a allai’r Cyngor ffurfio eu safbwyntiau, a holodd a oeddent yn barod i gefnogi cynigion Llywodraeth Cymru.

8. **Unrhyw Fater Arall**

8.1 Symudodd y Prif Weinidog i gloi’r cyfarfod a holodd a oedd unrhyw fater arall.

8.2 Cododd Lowri Morgan y pwnc o Dendro Pris Cystadleuol am wasanaethau amddiffyn troseddwyr yng Nghymru a Lloegr gan Lywodraeth y DU. Hysbysodd y Cyngor fod nifer sylweddol o BBaChau yng Nghymru yn ymwneud â’r maes hwn, a'r cynnig oedd dyfarnu ychydig o gontractau ar draws Cymru. Dywedodd y gallai’r cynigion presennol fod yn addas i ddinasoedd metropolitan y DU, ond ni fyddent yn cyd-fynd ag anghenion Cymru, a byddent yn effeithio'n sylweddol ar gwmnïau cyfreithwyr traddodiadol. Dywedodd ei fod yn debyg na fyddai unrhyw gwmnïau bychan yn gallu cystadlu o ganlyniad i’r cynigion hyn. Hysbysodd fod yr ymgynghoriad yn cau yfory ac y byddai Cymdeithas y Cyfreithwyr yn mynegi pryderon ynghylch hyfywedd economaidd y cynigion. Gofynnodd i’r Cyngor nodi pryderon Cymdeithas y Cyfreithwyr a gofynnodd am gefnogaeth Llywodraeth Cymru.

8.3 Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn cytuno â’r sylwadau a wnaed.

8.4 Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol ar yr agenda. Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am ddod i’r cyfarfod ac am eu cyfraniadau, ac atgoffodd yr aelodau y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Hydref 2013. Yna, fe wnaeth y Prif Weinidog gloi’r cyfarfod.